# PWYLLGOR ARCHWILIO PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd yn YSTAFELL BWLLGOR 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN, Dydd Iau, 2 Tachwedd 2017 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones (Cadeirydd), Gareth Davies, Hugh Irving, Pat Jones, Christine Marston, Melvyn Mile, Andrew Thomas, Rhys Thomas, David Williams ac Emrys Wynne (Is-Gadeirydd)

Yr Aelod Cabinet Arweiniol – Daeth y Cynghorydd Bobby Feeley i'r cyfarfod ar gyfer eitemau 5 a 6

Arsylwyr: Y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies a'r Cynghorydd Graham Timms

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau (NS), Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Cymunedol (PG), Swyddog Comisiynu a Thendro (LD) Swyddog Strategaeth Digartrefedd (EL), Prif Swyddog Cyllid (RW), Cydlynydd Archwilio (RE) a Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr)

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Melvyn Mile gysylltiad personol a datganodd y Cynghorydd Emrys Wynne gysylltiadau personol yn eitem 5, Strategaeth Ddigartrefedd Sir Ddinbych 2017-2021 a Chynllun Cefnogi Pobl / Atal Digartrefedd Sir Ddinbych 2018/2019.

Datganodd y Cynghorydd Gareth Lloyd Davies gysylltiad personol yn eitem 6, Cyllidebau Cyfun (Iechyd a Gofal Cymdeithasol) - Adroddiad Cynnydd.

## 3 MATERION BRYS FEL Y CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd ar 14 Medi 2017.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Medi 2017 fel cofnod cywir.*

**5 STRATEGAETH DDIGARTREFEDD SIR DDINBYCH 2017-2021 A CHYNLLUN CEFNOGI POBL / ATAL DIGARTREFEDD SIR DDINBYCH 2018/2019**

Datganodd y Cynghorydd Emrys Wynne gysylltiad personol yn yr eitem hon gan ei fod yn landlord preifat yn Ninbych ac mae'n YH sy'n eistedd ar Banel DRR Gogledd Ddwyrain Cymru.

Datganodd y Cynghorydd Melvyn Mile gysylltiad personol yn yr eitemau hyn gan y bydd yn denant i Grŵp Cynefin yn y dyfodol agos.

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol ar gyfer Gofal Cymdeithasol, Oedolion a Gwasanaethau Plant, y Cynghorydd Bobby Feeley, yr adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol).

Amlinellodd bwrpas yr arian Cefnogi Pobl a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru (LlC) a rôl y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol (RCC) mewn perthynas â Strategaeth Ddigartrefedd a Chynllun Atal Digartrefedd Sir Ddinbych. Pwysleisiodd mai'r Strategaeth oedd Strategaeth Ddigartrefedd gyntaf y sir ers gweithredu Deddf Tai (Cymru) 2014. Roedd gwaith atal digartrefedd blaenorol wedi'i gynnwys fel rhan o'r Strategaeth Dai ehangach. Hysbyswyd yr Aelodau bod y Tîm Atal Digartrefedd wedi ymgynghori'n helaeth ar y Strategaeth a'r Cynllun Atal oedd ger eu bron. Roedd y Tîm Atal Digartrefedd yn dîm pwrpasol a oedd yn canolbwyntio ar weithio gydag unigolion a theuluoedd i'w hatal rhag mynd yn ddigartref. Roedd yr aelodaeth yn cynnwys y cyn Dîm Cefnogi Pobl a'r Tîm Datrysiadau Tai. Canmolodd yr aelodau sefydlu tîm penodol i liniaru yn erbyn y peryglon o bobl yn dod yn ddigartref a gofynnwyd am fanylion y swyddogion a oedd yn gweithio fel rhan o'r Tîm. Ymgymerodd swyddogion i ddarparu'r wybodaeth hon, ond dywedwyd mai'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer unigolyn neu gynghorydd ag ymholiad yn ymwneud â digartrefedd oedd y Gwasanaeth Un Pwynt Mynediad amlddisgyblaeth (SPoA). Byddai SPoA wedyn yn cyfeirio'r unigolyn at y gwasanaeth(au) mwyaf priodol a allai eu helpu.

Gan ymateb i gwestiynau'r Aelodau, dywedodd yr Aelod Arweiniol a swyddogion:

- roedd y Strategaeth Ddigartrefedd yn strategaeth amlasiantaethol a oedd yn gofyn am gydweithrediad holl wasanaethau'r Cyngor;
- ar hyn o bryd roedd yr elfen Cefnogi Pobl (CP) o'r cyllid a ddefnyddiwyd i gomisiynu gwasanaethau atal digartrefedd wedi'i 'neilltuo' at y dibenion hynny. Fodd bynnag, roedd cyhoeddiad diweddar LlC wedi nodi na fyddai cyllid grant CP bellach wedi'i neilltuo, o 2019 ymlaen, gan roi ystyriaeth i ddatblygu "grant uwch", gan ymgorffori'r ffrydiau cyllid Trechu Tlodi eraill, a'r grant Cyflogaeth newydd. Gallai hyn olygu na ellir darparu elfennau o'r Strategaeth yn y dyfodol. Serch hynny, mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol i ddarparu rhai gwasanaethau i unigolion sydd, neu sydd mewn perygl o ddod, yn ddigartref. Nid oedd unrhyw wybodaeth bellach ar gael ar hyn o bryd ar fanylion cyhoeddiad diweddar LlC;

- roedd yr arian CP ar gyfer 2018-19 yn ddiogel ac wedi ei gadarnhau ar lefel genedlaethol, ond roedd disgwyl cadarnhad am ddyraniadau cyllid awdurdodau lleol unigol a allai fod yn destun newid;
- er bod y nod o leihau nifer yr aelwydydd sy'n byw mewn llety dros dro o 50% erbyn 2021 yn ymddangos yn uchelgeisiol, roedd swyddogion yn hyderus, gyda sefydlu'r Tîm Atal Digartrefedd, a oedd wedi dwyn ynghyd arbenigwyr ym meysydd digartrefedd a chymorth tai, y gellid cyflawni hyn;
- er y cydnabuwyd bod integreiddio cyn-droseddwyr yn y gymuned yn fodd llwyddiannus o leihau aildroseddu, byddai gan gyn-garcharorion a gyflwynodd eu hunain yn ddigartref yn Sir Ddinbych hawl i gael mynediad i wasanaethau cymorth tai os oeddent yn gallu bodloni'r prawf 'cysylltiad lleol' yn unol â Deddf Tai (Cymru) 2014. Gan fod yr aelodau'n awyddus i hyn gael ei amlygu o fewn y Strategaeth, ymgymerodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol i ofyn am gyngor cyfreithiol ynghylch a ellid cynnwys cyfeiriad yn y Strategaeth;
- hyd yma, roedd un prosiect 'rhannu tai' i ddiwallu anghenion pobl ifanc wedi cael ei beilota yn Sir Ddinbych. Roedd gan y dull hwn ei gymhlethdodau ac roedd ar hyn o bryd yn cael ei werthuso a'i gymharu â chynlluniau a dreialwyd mewn ardaloedd eraill;
- roedd y peilot 'rhannu tai' i ddiwallu anghenion pobl ifanc yn gwbl ar wahân i'r cynlluniau tai â chymorth ar gyfer pobl ag anableddau dysgu a chynlluniau byw â chymorth eraill yr oedd galw mawr a chynyddol amdanynt;
- ni fyddai pobl ifanc ddigartref (16-17) yn cael dyraniad 'rhannu tai' neu leoliad tai â chymorth lle byddent yn rhannu'r cyfleuster gydag unigolion hŷn, neu fel arall;
- Roedd prosiect tai â chymorth pobl ifanc "Y Dyfodol" yn y Rhyl yn cael ei ailfodelu ar hyn o bryd, er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu anghenion pobl ifanc a oedd yn ddigartref neu dan fygythiad o fod yn ddigartref. Roedd hyn yn cyd-fynd â datblygu ymagwedd "Llwybr Cadarnhaol" tuag at gefnogi pobl ifanc. Byddai'r contract wedi'i ailfodelu yn cychwyn ym mis Hydref 2018;
- fel rhan o ddarparu’r Strategaeth, roedd y Cyngor a'i bartneriaid yn edrych ar leihau'r defnydd o gyfleusterau gwely a brecwast i gartrefu teuluoedd ac unigolion digartref o hyd at 50%. Un o'r rhesymau y tu ôl i hyn oedd y teimlid nad oedd y math hwn o lety yn addas ar gyfer teuluoedd ac nid yn ffafriol i fywyd teuluol;
- tra bod y mwyafrif o'r llety gwely a brecwast a ddefnyddir gan y Cyngor ar hyn o bryd ar hyd y llain arfordirol, roedd llety mewn mannau eraill yn y sir yn cael eu defnyddio hefyd. Byddai'r lleoliad yn dibynnu ar gyfer pwy yr ydoedd, lle'r oedd ei angen, a'r rhesymau dros roi pobl a theuluoedd yn y llety e.e. yn ffoi rhag trais domestig ac ati. Byddai'r math o lety gwely a brecwast a ddarperir yn dibynnu ar faint yr uned deuluol, gallai amrywio o ystafell mewn gwesty / tŷ gwestai i gaban ar barc gwyliau preswyl. Fel arfer byddai'r Cyngor yn talu cyfradd is na'r gyfradd y byddai ymwelwyr yn ei dalu ar gyfer y llety, ond byddai'r cyfraddau'n amrywio yn seiliedig ar faint yr uned deuluol - roedd yr ymagwedd hon yn debyg i'r un a ddefnyddiwyd mewn ardaloedd awdurdod lleol eraill. Roedd Tîm Gorfodaeth Tai y Cyngor a'i Adran Gwarchod y Cyhoedd yn gyfrifol am sicrhau bod yr eiddo a gomisiynwyd yn ddiogel ac o'r safonau gofynnol ar gyfer lletya pobl. Gofynnodd yr aelodau i rannu manylion gyda nhw ynghylch cost gyfartalog fesul uned llety dros dro B & B a gomisiynwyd gan y Cyngor;

- gwneir pob ymdrech i sicrhau bod llety dros dro ar gael i bawb a gyflwynodd eu hunain yn ddigartref a bodloni'r meini prawf gofynnol ar y diwrnod y cawsant eu cyflwyno yn ddigartref. Wedi sicrhau llety dros dro, byddai'r Tîm Atal Digartrefedd yn gweithio gyda'r teuluoedd / unigolion, adrannau eraill y Cyngor a sefydliadau allanol i geisio sicrhau datrysiadau tai hirdymor i'r unigolion dan sylw;
- roedd Deddf Tai (Cymru) 2014 yn nodi bod gan y Cyngor 56 diwrnod o'r diwrnod yr oedd unigolyn / teulu yn cysylltu â'r awdurdod i'w hysbysu eu bod mewn perygl o ddod yn ddigartref i weithio gyda hwy i'w hatal rhag colli eu cartref, neu pe bai angen, eu cefnogi i sicrhau llety addas a chynaliadwy. Roedd hyn ddwywaith gyn hired nag ydoedd o dan y Ddeddf flaenorol, ac yn darged llawer mwy cyraeddadwy, a oedd yn caniatáu gwell ymyrraeth gynnar ac atal pwynt argyfwng. Felly roedd yn hollbwysig bod y rheiny sydd mewn perygl o golli eu cartrefi wedi cysylltu â'r awdurdod lleol cyn gynted ag y gwyddent am y risg, e.e. ar y diwrnod cyflwynwyd yr hysbysiad troi allan i alluogi swyddogion i weithio gyda nhw i lunio cynllun cartrefu a'u cynorthwyo i gael cymorth a chefnogaeth;
- Ymddengys bod y broses ymgeisio a dyrannu Llwybr Mynediad Sengl i Dai (SARTH) yn gweithio'n dda yn dilyn rhai problemau cychwynnol. O safbwynt y Tîm Atal Digartrefedd, roedd y broses ymgeisio sengl newydd yn llawer symlach ac yn eu cynorthwyo gyda'u gwaith o gefnogi cleientiaid i ddod o hyd i ddatrysiadau tai addas;
- nad oedd y Cyngor, oherwydd yr angen i gael mwy o hyblygrwydd mewn perthynas â'r gwasanaethau a ddarperir, bellach yn gweithredu 'lloches nos' ar gyfer pobl sy'n cysgu allan a oedd am ei ddefnyddio. Ar hyn o bryd, roedd yn gweithredu gwelyau argyfwng 7 diwrnod a oedd ar gael i bobl sy'n cysgu allan heb gysylltiadau lleol a dim pecynnau cymorth ar gael ar drwydded 3 diwrnod;
- y nod nawr oedd datblygu cynnig 'Dim Ail Noson Allan' a fyddai'n darparu ymagwedd fwy cyfannol tuag at gefnogi holl anghenion pobl sy’n cysgu allan, rhai ohonynt yn hynod gymhleth, i'w cefnogi i ailgysylltu â chymdeithas a dod o hyd i dai sy’n diwallu eu hanghenion yn y tymor hir. Y gobaith oedd y byddai'r gwaith 'Dim Ail Noson Allan', trwy ddarparu amrywiaeth o waith atal yn datblygu'n ddull 'Dim Noson Gyntaf Allan' gyda'r bwriad o ddod â digartrefedd yn y sir i ben. Fodd bynnag, cytunodd swyddogion ag aelodau na fyddai modd peidio â chael dim cysgwyr allan o gwbl, gan i rai ohonynt roedd cysgu allan yn ddewis diwylliannol;
- roedd y Tîm Atal Digartrefedd yn delio â phob unigolyn a oedd naill ai'n ddigartref neu mewn perygl o gael ei wneud yn ddigartref, gan gynnwys plant. Pe bai plant yn rhan o sefyllfa, byddai'r Tîm yn cysylltu'n agos â swyddogion yn y Gwasanaethau Plant;
- roedd gweithgor swyddog mewnol ar hyn o bryd yn gweithio ar effaith bosibl cyflwyno Credyd Cynhwysol i drigolion Sir Ddinbych. Roedd y Grŵp hwn yn parhau â gwaith y Gweithgor Trechu Tlodi a oedd wedi gweithredu yn ystod tymor y Cyngor blaenorol. Ymhen amser, byddai'r Grŵp hwn yn adrodd ar ei waith i un o'r Byrddau a fyddai'n cael ei sefydlu i gefnogi cyflwyno Cynllun Corfforaethol newydd y Cyngor;
- bod swyddogion yn gweithio'n agos gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (RSLs), i dynnu sylw'r tenantiaid hynny a oedd mewn perygl o

gael eu troi allan at y gwasanaethau a’r gefnogaeth oedd ar gael gan y Tîm Atal Digartrefedd, yn gynnar gyda’r bwriad o osgoi sefyllfa argyfwng;

- roedd cynllun gweithredu i gyflawni'r Cynllun Cefnogi Pobl/Atal Digartrefedd 2018/19 yn cael ei lunio.  Byddai'r Cynllun Gweithredu Atal Digartrefedd yn cael ei adolygu a'i fonitro'n rheolaidd gan y Grŵp Cynllunio Atal Digartrefedd;
- roeddent o'r farn bod y Strategaeth a'r Cynllun Atal yn hygyrch ac yn gynaliadwy yn yr hirdymor, yn amodol ar argaeledd cyllid.  Fodd bynnag, roedd yr ansicrwydd mewn perthynas â chyllid CP yn y dyfodol, os oedd wedi'i gynnwys fel rhan o'r cyllid GCR, yn bryder ac felly'r rheswm pam fod yr Asesiad Effaith ar Les ar gyfer y Strategaeth a'r Cynllun Atal wedi sgorio 3 allan o'r 4 seren posibl; a
- o dan y Strategaeth, gwnaed pob ymdrech i ddarparu Gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg i unigolion lle bynnag y bo modd, yn unol â gofynion Safonau Iaith Gymraeg y sir.  Serch hynny, fel y cydnabuwyd yn yr Ael gallai hyn roi pwysau ychwanegol ar yr un aelod o staff sy'n siarad Cymraeg yn rhugl yn y Tîm, ond gwneir pob ymdrech i ddarparu ar gyfer unrhyw geisiadau a dderbyniwyd.

Ar ddiwedd y drafodaeth, cymeradwyodd yr aelodau y Tîm Atal Digartrefedd ar eu gwaith ac ar y Cynllun Strategaeth ac Atal, gan bwysleisio pwysigrwydd addysgu pobl ar faterion ariannol, yn enwedig cynllunio ariannol a sut i flaenoriaethu eu gwariant gyda'r bwriad o leihau'r risg o gael eu gwneud yn ddigartref. .

***PENDERFYNWYD: -***

*(i) cadarnhau, fel rhan o'i ystyriaeth, ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiadau Effaith ar Les ar gyfer y Strategaeth ddrafft a'r Cynllun Atal;*
*(ii) ar ôl ystyried y Strategaeth ddrafft a'r Cynllun Atal, ac yn ddarostyngedig i'r sylwadau uchod, argymell i'r Cabinet y dylid cymeradwyo a mabwysiadu Strategaeth Ddigartrefedd Sir Ddinbych 2017-21 a Chynllun Cefnogi Pobl / Atal Digartrefedd 2018-19 Sir Ddinbych; a*
*(iii) gofyn am gyflwyno adroddiad cynnydd ar weithredu'r Strategaeth a chyflwyno'r Cynllun Gweithredu Atal i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Mai 2018.*

**Ar y pwynt hwn (11.15 a.m.) cafwyd egwyl o 15 munud.**

**Ailddechreuodd y cyfarfod am 11.30 a.m.**

## 6 CYLLIDEBAU CYFUN (IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL) - ADRODDIAD CYNNYDD

Datganodd y Cynghorydd Gareth Lloyd Davies gysylltiad personol gan ei fod yn gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC).

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau / Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol yr adroddiad a'r atodiadau (a ddosbarthwyd yn flaenorol) a oedd yn amlinellu'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn mewn perthynas â

sefydlu cyllidebau cyfun ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol penodol ledled rhanbarth Gogledd Cymru. Yn ystod ei chyflwyniad, atgoffodd y Cyfarwyddwr yr aelodau bod sefydlu cyllidebau cyfun ar gyfer gwasanaethau penodol yn ofyniad o dan Ran 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014.

Hysbyswyd yr aelodau, er mwyn datblygu trefniadau cyllideb cyfun, bod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (NWRPB) wedi sefydlu Gweithgor Cyllidebau Rhanbarthol, sy'n cynnwys arbenigwyr technegol arbenigol o'r Gwasanaeth Iechyd ac awdurdodau lleol. Roedd y Grŵp hwn, dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych, wedi bod yn gyfrifol am archwilio manteision posibl sefydlu cyllidebau cyfun, y trefniadau gweithredu a rheoli ar gyfer cyllidebau cyfun, gan nodi unrhyw risgiau a gweithredoedd lliniaru sy'n gysylltiedig â hwy a sefydlu trefniadau llywodraethu ac ati. Roedd cynrychiolaeth dda ar gyfer Sir Ddinbych ar y Grŵp gan fod Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ei gadeirio ac roedd ei swyddog Adran 151, y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, un o'i Gyfreithwyr ac Arbenigwr Adnoddau Dynol yn aelodau ac yn gynghorwyr technegol i'r Grŵp.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y NWRPB a Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol ledled Cymru yn gadarn o'r farn y dylid ystyried cyllidebau cyfun fel offeryn i gefnogi'r daith tuag at integreiddio nid ffurf o integreiddio yn eu rhinwedd eu hunain. Er bod cynnydd wedi'i wneud wrth ddatblygu cytundeb integreiddio rhanbarthol, roedd gwaith ar y gweill o hyd i gwmpasu a datblygu cyllidebau cyfun ar gyfer meysydd gwasanaeth penodol. Roedd nifer o gynlluniau peilot yn cael eu cynnal ar hyn o bryd, neu wedi dod i'r casgliad yn ddiweddar, i asesu ymarferoldeb y defnydd o gyllidebau cyfun ar gyfer darparu gwasanaethau yn y meysydd hyn. Er bod angen llawer mwy o waith mewn nifer o'r meysydd hyn cyn cyflwyno adnoddau cyfun, daeth yn amlwg na fyddai Gogledd Cymru, yn debyg i bob rhanbarth arall yng Nghymru, mewn sefyllfa i sefydlu cyllideb gyfun ar gyfer darpariaeth cartref gofal o fis Ebrill 2018, ac felly ni fyddai'n cydymffurfio â gofynion y Ddeddf. Hysbyswyd Gweinidog Llywodraeth Cymru dros Wasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd y Cyhoedd o'r sefyllfa ac, o ganlyniad, roedd gan bob Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol 12 mis ychwanegol i gydymffurfio â'r gofyniad hwn. Roedd hi hefyd wedi ei gwneud yn glir iawn y byddai'n ystyried ymyrryd os na chydymffurfiwyd â'r gofyniad hwn erbyn Ebrill 2019. Cynghorwyd yr aelodau fod Gogledd Cymru o flaen y partneriaethau rhanbarthol eraill mewn perthynas â symud ymlaen â'r gofyniad hwn, ond roedd llawer iawn o waith manwl ei angen ynghyd â materion cymhleth i weithio trwyddynt cyn llofnodi cytundeb mewn perthynas â'r gyllideb gyfun benodol hon.

Wrth ymateb i gwestiynau'r Aelodau, dyma ddywedodd yr Aelod Arweiniol, y Cyfarwyddwr Corfforaethol a'r swyddogion:

- gofynnwyd i'r aelodau godi unrhyw achosion unigol yn uniongyrchol â hwy, yr oedd ganddynt bryderon yn eu cylch o ran eu cael eu derbyn i ofal preswyl / gofal nyrsio hyd nes y byddai triniaeth feddygol yn y dyfodol heb gael asesiad gofal / gofal nyrsio priodol;
- cynghorwyd nad oedd y gyfraith mewn perthynas â chyllidebau cyfun ar gyfer darparu gofal ar hyn o bryd yn caniatáu i'r gyllideb gyfun gael ei dirprwyo i unigolion er mwyn iddynt gomisiynu eu pecyn gofal eu hunain,

byddai angen i'r holl Wasanaethau Cymdeithasol / Gwasanaeth Iechyd gomisiynu pob pecyn. Roedd byrddau partneriaeth yn lobïo'r Llywodraeth i newid y gyfraith mewn perthynas â hyn;

- cadarnhawyd nad oedd y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion na'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) wedi'u cynnwys o fewn cwmpas gofynion cyllideb gyfun Deddf SSWB (Cymru) 2014. Serch hynny, roedd Tîm Iechyd Meddwl Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol integredig eisoes ar waith yn Sir Ddinbych o dan ddarpariaethau Adran 33 Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a oedd yn caniatáu i'r Gwasanaeth Iechyd ac awdurdodau lleol, lle y bo'n briodol, ymrwymo i gytundeb partneriaeth ar gyfer darparu gwasanaethau integredig. Un elfen o gytundebau o'r fath oedd y gallu i gronni arian i ddarparu gwasanaeth integredig. Cyflwynwyd adroddiad ar gyllidebau cyfun yn unol â'r ddarpariaeth ddeddfwriaethol hon i'r aelodau yng nghyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 14 Medi 2017;
- cynghorwyd mai amcan darpariaethau Deddf SSWB (Cymru) 2014 oedd dod â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn agosach at ei gilydd i wella lles dinasyddion;
- hysbysodd y Pwyllgor bod elfen o nerfusrwydd ar ran yr holl awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru a'r Bwrdd Iechyd mewn perthynas â datblygu cyllidebau cyfun, yn enwedig o ystyried y sefyllfa ariannol y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei wynebu ar hyn o bryd a'r cyfyngiadau ariannol ar gyllidebau awdurdodau lleol;
- cadarnhawyd fod awdurdodau lleol ledled Cymru wedi cyflwyno sylwadau i Weinidog Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag ymarferoldebau sefydlu cyllidebau cyfun ar gyfer darpariaeth cartrefi gofal erbyn 2018 oherwydd y swm mawr o arian a fyddai angen ei dalu i'r gyllideb gyfun hon. Roedd rhai eisoes yn amau a oedd y dyddiad Ebrill 2019 yn gyraeddadwy, yn enwedig o gofio faint o waith sydd ei angen i sefydlu'r gyllideb, gan roi'r gweithdrefnau angenrheidiol yn eu lle, a'r trefniadau diogelu a llywodraethu cadarn ar waith;
- pwysleisiwyd nad oedd yr NWRPB yn gorff gwneud penderfyniadau, byddai angen cyflwyno unrhyw gynigion a luniwyd gan y Bwrdd i bob awdurdod lleol a chyrff penderfynu y Bwrdd Iechyd i'w cymeradwyo i'w gweithredu;
- cynghorwyd eu bod yn hyderus bod casgliadau'r Ael a gyflawnwyd mewn perthynas â datblygu cyllidebau cyfun wedi bod yn adlewyrchiad cywir o'r cynigion cynaliadwyedd hirdymor, ac felly'r rheswm dros gymryd digon o amser a gofal wrth archwilio'r agweddau cyfreithiol a thechnegol cysylltiedig gyda sefydlu cronfeydd cyfun;
- cytunwyd fod y cysyniad o gyllidebau cyfun yn ganmoladwy, fel ag yr oedd nod y Ddeddf – sef integreiddio darparu gwasanaethau gofal a lles er budd defnyddwyr gwasanaeth a gwella canlyniadau ar eu cyfer. Y sialens fwyaf fyddai troi'r weledigaeth yn realiti, yn enwedig adeiladu sylfaen gadarn er mwyn galluogi cyllidebau i gael eu cyfuno a'u rheoli'n effeithiol;
- cynghorwyd fod Deddf SSWB (Cymru) 2014 yn nodi ei bod yn ofynnol i bob awdurdod lleol o fewn ardal ôl troed Bwrdd Iechyd Lleol gydweithio i wella gwasanaethau gofal cymdeithasol a lles trigolion yn yr ardal honno h.y. i'r chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru o fewn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC). Nid oedd hyn yn gwahardd awdurdodau lleol rhag ymrwymo i gytundebau â Byrddau Iechyd eraill pe baent am wneud hynny. Roedd deddfwriaeth gynharach a oedd yn dal

mewn grym yn caniatáu i awdurdodau lleol ymrwymo i gytundebau partneriaeth i gronni arian i ddarparu gwasanaethau integredig. Serch hynny, rhagwelir y byddai sefydlu partneriaethau o'r fath yn brin;

- cydnabuwyd bod ardal ôl troed y Bwrdd Iechyd wedi ymestyn i sir Powys, gyda chleifion o ogledd Powys yn cael eu cyfeirio at ysbytai yn ardal BIPBC. Cadarnhawyd nad oedd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (BIAP) a'i awdurdodau lleol cysylltiedig ddim pellach na NWRPB gyda datblygu cyllidebau cyfun;
- cadarnhawyd, er bod y NWRPB yn Fwrdd dan arweiniad gweithredol, ei ffocws oedd cleifion a dinasyddion y rhanbarth. Am y rheswm hwn, gofynnwyd am gyngor technegol, ariannol a chyfreithiol gan arbenigwyr yn y maes. Roedd yn treialu nifer o brosiectau peilot mewn perthynas â chyllidebau cyfun gyda'r bwriad o nodi problemau ac arferion da gyda'r nod yn y pen draw o sefydlu trefniadau cyllidebau cyfun effeithlon ac effeithiol; a
- cadarnhawyd fod arbenigwyr AD yn ymwneud â gwaith y grŵp cyllidebau cyfun er mwyn nodi materion sy'n ymwneud ag Adnoddau Dynol, megis telerau ac amodau'r staff ac ati, os gwnaed cynnig i gynnwys staffio a chostau staffio mewn unrhyw drefniadau cyllideb gyfun. Pwysleisiwyd nad oedd yn rhaid i drefniadau cyllidebau cyfun gynnwys trefniadau cyflogaeth staff, roedd arferion gwaith integredig yn ddigonol.

Ar ddiwedd y drafodaeth:

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar y sylwadau uchod:*

***(i)*** *cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les fel rhan o'i ystyriaethau:*

***(ii)*** *nodi na fyddai Gogledd Cymru fel rhanbarth yn cyfuno cyllidebau Cartrefi Gofal erbyn Ebrill 2018, tra'n cydnabod y gwaith sylweddol sydd ar y gweill ar draws y rhanbarth i ddatblygu gwaith o ran integreiddio a chyllidebau cyfun;*

***(iii)****cydnabod y gofynion adnoddau sydd eu hangen i gwblhau'r gwaith sy'n gysylltiedig ag integreiddio a chyllidebau cyfun o fewn yr amserlenni a nodir yn y Ddeddf, gan gynnwys y costau posibl a'r ffynonellau ariannu i'w darparu; a*

***(iv)****gofyn i adroddiad gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor i'w ystyried yn ei gyfarfod ym mis Mai 2018, ar y cynnydd a wnaed wrth ddatblygu a chyflwyno cyllidebau iechyd a gofal cymdeithasol cyfun a chydymffurfio ag Adran 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014.*

## 7 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Cyflwynodd y Cydlynydd Archwilio adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn gofyn i'r Aelodau adolygu Rhaglen Gwaith y Pwyllgor a rhoi diweddariad ar faterion perthnasol.

Yn ystod y drafodaeth:

- Cytunwyd i wahodd pob Aelod Arweiniol ar gyfer eitemau'r Rhaglen ar y Rhaglen Waith i'r Dyfodol ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau nesaf a gynhelir ar 14 Rhagfyr 2017. Yn anffodus, ni fyddai'r Arweinydd, y Cynghorydd Hugh Evans ar gael ond byddai'r Aelod Arweiniol, y Cynghorydd Julian Thompson- Hill yn mynychu yn ei le.
- Cytunwyd i ychwanegu Strategaeth Digartrefedd Sir Ddinbych 2017-21 a'r Cynllun Atal Digartrefedd/Cefnogi Pobl 2018/19 i'r Rhaglen Waith ar gyfer y cyfarfod ar 3 Mai 2018.
- Trefnu diweddariad dros dro ar Brosiect Ysbyty Cymuned Gogledd Sir Ddinbych yn y Rhyl ar gyfer cyfarfod 22 Ionawr 2018 yn dilyn cadarnhad oddi wrth BIPBC.
- Atodiad 5 - Roedd Grŵp Monitro Safonau Ysgolion am ddiweddaru eu cylch gorchwyl a newid aelodaeth. Gwirfoddolodd y Cynghorydd Emrys Wynne i eistedd ar y Grŵp gan ei fod yn gyn-athro ac roedd ganddo ddiddordeb yn nodau'r Grŵp.

Felly:

***PENDERFYNWYD -*** *yn amodol ar yr uchod:*

*(i) Cadarnhau rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor; a*

*(ii) Phenodi'r Cynghorydd Emrys Wynne fel cynrychiolydd y Pwyllgor ar y Grŵp Monitro Safonau Ysgol y Cyngor.*

## 8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU

Yn y fan hon, dywedodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Jeanette Chamberlain-Jones na fyddai'n gallu mynychu'r ddau gyfarfod nesaf o'r Grŵp Buddsoddiad Strategol (SIG) oherwydd ei bod ar wyliau. Gofynnodd i rywun fynychu yn ei lle. Mynegodd y Cynghorydd Joan Butterfield ddiddordeb mewn mynychu cyfarfodydd SIG os oedd hi'n gallu cadarnhau trefniadau cludiant.

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.35pm.**